OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1653 (Cy.188)

# BYWYD GWYLLT, CYMRU

## Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru ynghylch y gofynion cofrestru a modrwyo neu farcio sy'n gymwys i adar a gynhwysir yn Atodlen 4 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf. Mae adran 7(1) o'r Ddeddf yn darparu bod unrhyw berson sy'n cadw unrhyw aderyn a gynhwysir yn Atodlen 4, neu y mae aderyn o'r fath yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth, a hwnnw'n aderyn nad yw wedi ei gofrestru a'i fodrwyo neu ei farcio yn unol â rheoliadau, yn euog o dramgwydd.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â Chymru o dan adran 7 o'r Ddeddf yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3235 (Cy.315)) a Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2009 (O.S. 2009/1733 (Cy.161)).

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw cofrestr o'r adar sy'n cael eu cadw mewn cyfeiriadau yng Nghymru at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf. Ni chaniateir i aderyn gael ei gofrestru gan Weinidogion Cymru onid ydynt wedi eu bodloni bod yr aderyn wedi ei fodrwyo neu ei farcio'n unol â rheoliad 6. Rhaid i gais am gofrestriad ar ffurflen a geir oddi wrth Weinidogion Cymru gael ei wneud gan geidwad neu ddarpar geidwad yr aderyn y mae'r cais

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1653 (W.188)

# WILDLIFE, WALES

## The Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) Regulations 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make provision in relation to Wales about the registration and ringing or marking requirements applicable to birds included in Schedule 4 to the Wildlife and Countryside Act 1981 ("the Act") for the purposes of section 7(1) of the Act. Section 7(1) of the Act provides that any person who keeps, or has in their possession or under their control, any bird included in Schedule 4 which has not been registered and ringed or marked in accordance with regulations is guilty of an offence.

The power to make regulations in relation to Wales under section 7 of the Act is exercisable by the Welsh Ministers.

These Regulations revoke both the Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/3235 (W.315)) and the Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) (Amendment) Regulations 2009 (S.I. 2009/1733 (W.161)).

Regulation 3 requires the Welsh Ministers to maintain a register of birds kept at addresses in Wales for the purposes of section 7(1) of the Act. A bird must not be registered by the Welsh Ministers unless they are satisfied that the bird has been ringed or marked in accordance with regulation 6. An application for registration on a form obtained from the Welsh Ministers must be made by the keeper or prospective keeper of the bird to which the application relates. The

yn ymwneud ag ef. Rhaid i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod ffi yn dod gyda chais am gofrestriad a chânt wrthod gwneud cofnod yn y gofrestr mewn cysylltiad â chais hyd nes y bydd y ffi honno wedi ei thalu.

Mae rheoliad 4 yn manylu ar yr amgylchiadau y bydd cofrestriad yn peidio â chael effaith odanynt ac yn cael ei derfynu.

Mae rheoliad 5 yn darparu, pan fo cudyll bach neu hebog tramor wedi ei gofrestru yn y gofrestr o adar y mae tystysgrif, y cyfeirir ati yn Erthygl 10 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 338/97 ynghylch gwarchod rhywogaethau ffawna a fflora gwyllt drwy ddiogelu'r fasnach ynddynt ("Rheoliad y Cyngor"), wedi ei dyroddi mewn cysylltiad â hwy, ei fod yn cael ei drin fel aderyn sy'n gofrestredig at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 6 yn darparu bod rhaid i bob aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo gael ei fodrwyo â modrwy a geir oddi wrth Weinidogion Cymru onid yw wedi ei farcio'n unol â'r gofynion ynghylch marcio sbesimenau yn Erthygl 66 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 865/2006 sy'n gosod rheolau manwl ynghylch gweithredu Rheoliad y Cyngor.

Mae Rheoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn ill dau yn gweithredu'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl, y cyfeirir ato yn gyffredinol fel CITES.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Welsh Ministers must require an application to be accompanied by a charge for registration and may refuse to make an entry in the register in respect of an application until that charge has been paid.

Regulation 4 details those circumstances where registration ceases to have effect and is terminated.

Regulation 5 provides that where a merlin or peregrine falcon has been registered on the register of birds in respect of which a certificate referred to in Article 10 of Council Regulation (EC) No. 338/97 on the protection of species of wild fauna and flora by protecting trade therein ("the Council Regulation") has been issued, it is treated as being registered for the purposes of section 7(1) of the Act.

Regulation 6 provides that every bird to which these Regulations apply must be ringed with a ring obtained from the Welsh Ministers unless marked in accordance with the specimen marking requirements of Article 66 of Commission Regulation (EC) No. 865/2006 laying down detailed rules concerning the implementation of the Council Regulation.

Both the Council Regulation and the Commission Regulation implement the Convention on International Trade in Endangered Species of Wild Fauna and Flora commonly referred to as CITES.

A regulatory impact assessment has not been prepared for these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1653 (Cy.188)

# BYWYD GWYLLT, CYMRU

## Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Gorffennaf 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Gorffennaf 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 7(1) a (2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2011 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cadw" ("*keep*") yw cadw, meddu neu reoli;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw'r person sy'n cadw, neu sy'n meddu ar, neu sydd â rheolaeth dros, aderyn;

ystyr "ceidwad cofrestredig" ("*registered keeper*") mewn perthynas ag aderyn cofrestredig yw'r person sydd wedi ei gofrestru fel ceidwad yr aderyn yn y gofrestr sy'n cael ei chadw gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3(1);

(**1**) 1981. p.69. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a gynhwysir yn adran 7 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1653 (W.188)

# WILDLIFE, WALES

## The Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) Regulations 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *5 July 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *7 July 2011* |
| *Coming into force* | *1 August 2011* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 7(1) and (2) of the Wildlife and Countryside Act 1981(**1**), make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) Regulations 2011.

(2) These Regulations come into force on 1 August 2011 and apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**.—(1) In these Regulations—

"keep" ("*cadw*") means keep, possess or control;

"keeper" ("*ceidwad*") means the person who keeps, or has possession of, or control over, a bird;

"registered address" ("*cyfeiriad cofrestredig*") means the address contained in the register maintained by the Welsh Ministers under regulation 3(1);

(**1**) 1981. c.69. The functions of the Secretary of State contained in section 7 of the Wildlife and Countryside Act 1981, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), those functions have been transferred to the Welsh Ministers.

ystyr "cyfeiriad cofrestredig" ("*registered address*") yw'r cyfeiriad sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr sy'n gael ei chadw gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3(1);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981; ac

ystyr "modrwy" ("*ring*") yw unrhyw fodrwy neu fand ar gyfer modrwyo aderyn.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo yn gyfeiriad at unrhyw aderyn a gynhwysir yn Atodlen 4 i'r Ddeddf ac y mae unrhyw berson yn ei gadw.

**Cofrestru**

**3**.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf, gadw cofrestr o adar y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt ac sy'n cael eu cadw mewn cyfeiriadau yng Nghymru.

(2) Rhaid i gais am gofrestriad gael ei wneud gan geidwad, neu ddarpar geidwad, yr aderyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ar ffurflen a geir oddi wrth Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gais am gofrestriad gael ei gyflwyno ynghyd ag unrhyw ffi resymol y byddant wedi penderfynu arni o dan adran 7(2A) o'r Ddeddf(**1**).

(4) Wedi i gais am gofrestriad ddod i law, rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys yr wybodaeth berthnasol ar y gofrestr. Ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6).

(5) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gofrestru unrhyw aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo onid ydynt wedi eu bodloni bod yr aderyn wedi ei fodrwyo neu wedi ei farcio yn unol â rheoliad 6.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod gwneud cofnod yn y gofrestr mewn cysylltiad â chais hyd nes y bydd y ffi y cyfeirir ati ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwn wedi ei thalu.

(7) Wedi iddynt gael eu hysbysu'n unol â rheoliad 4(1)(ch)(ii) am newid yn y cyfeiriad lle y bydd aderyn cofrestredig yn cael ei gadw, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y cyfeiriad newydd yn cael ei gofnodi ar y gofrestr fel y cyfeiriad cofrestredig ar gyfer yr aderyn hwnnw.

**Terfynu**

**4**.—(1) Mae effaith cofrestriad yn peidio—

(a) pan fydd yr aderyn cofrestredig—

(**1**) Mewnosodwyd adran 7(2A) yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 gan adran 1(2) o Ddeddf Adar (Ffioedd Cofrestru) 1997 (p.55).

"registered keeper" ("*ceidwad cofrestredig*") in relation to a registered bird means the person registered as keeper of the bird in the register maintained by the Welsh Ministers under regulation 3(1);

"ring" ("*modrwy*") means any ring or band for ringing a bird; and

"the Act" ("*y Deddf*") means the Wildlife and Countryside Act 1981.

(2) In these Regulations, any reference to a bird to which these Regulations apply is a reference to any bird included in Schedule 4 to the Act which any person keeps.

**Registration**

**3**.—(1) The Welsh Ministers must, for the purposes of section 7(1) of the Act, maintain a register of birds to which these Regulations apply which are kept at addresses in Wales.

(2) An application for registration must be made by the keeper, or prospective keeper, of the bird to which the application relates on a form obtained from the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must require an application to be accompanied by such reasonable charge for registration as they have determined under section 7(2A) of the Act(**1**).

(4) Upon receiving an application for registration, the Welsh Ministers must enter the relevant information on the register. But this is subject to paragraphs (5) and (6).

(5) The Welsh Ministers must not register any bird to which these Regulations apply unless satisfied that the bird has been ringed or marked in accordance with regulation 6.

(6) The Welsh Ministers may decline to make an entry in the register in respect of an application until the charge referred to in paragraph (3) of this regulation has been paid.

(7) Upon being notified in accordance with regulation 4(1)(d)(ii) of a change in the address at which a registered bird will be kept, the Welsh Ministers must ensure that the new address is entered onto the register as the registered address for that bird.

**Termination**

**4**.—(1) A registration ceases to have effect—

(a) when the registered bird—

(**1**) Section 7(2A) was inserted into the Countryside and Wildlife Act 1981 by section 1(2) of the Birds (Registration Charges) Act 1997 (c.55).

(i) yn marw;

(ii) yn dianc neu'n cael ei ryddhau i'r gwyllt;

(iii) yn cael ei waredu drwy ei werthu neu fel arall;

(iv) yn cael ei allforio o'r Deyrnas Unedig;

(b) pan dynnir ymaith y fodrwy neu'r marc y cyfeirir atynt yn rheoliad 6 neu pan ddaw'r wybodaeth adnabod sydd arnynt neu sydd wedi ei storio ynddynt yn annarllenadwy;

(c) pan fydd yr aderyn cofrestredig yn cael ei gadw gan berson heblaw ei geidwad cofrestredig, oni fwriedir, ar yr adeg y mae'r aderyn yn dechrau cael ei gadw felly, ei ddychwelyd i'w geidwad cofrestredig o fewn y cyfnod penodedig a bod yr aderyn yn cael ei ddychwelyd felly;

(ch) pan fydd yr aderyn cofrestredig yn cael ei gadw gan ei geidwad cofrestredig, ond yn peidio â chael ei gadw yn ei gyfeiriad cofrestredig—

(i) oni fwriedir ar yr adeg y mae'r aderyn yn dechrau cael ei gadw felly, ei ddychwelyd i'w gyfeiriad cofrestredig o fewn tair wythnos a bod yr aderyn yn cael ei ddychwelyd felly, neu

(ii) oni fydd Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig yn unol â pharagraff (2) am y cyfeiriad newydd lle y bydd yr aderyn yn cael ei gadw.

(2) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(ch)(ii)—

(i) cael ei wneud cyn i'r aderyn beidio â chael ei gadw yn y cyfeiriad cofrestredig; a

(ii) cynnwys y dyddiad o ba bryd y bydd yr aderyn yn cael ei gadw yn y cyfeiriad newydd.

(3) Yn rheoliad 4(1)(c), ystyr "y cyfnod penodedig" ("*the specified period*")—

(i) mewn amgylchiadau lle na fydd yr aderyn yn cael ei gadw'n barhaus yn ei gyfeiriad cofrestredig, yw cyfnod o dair wythnos; neu

(ii) mewn amgylchiadau lle y bydd yr aderyn yn cael ei gadw'n barhaus yn ei gyfeiriad cofrestredig, yw cyfnod o chwe wythnos.

**Adar sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr CITES**

**5**.—(1) Pan fo aderyn o rywogaeth sydd wedi ei rhestru yn yr Atodlen wedi ei gofrestru ar y gofrestr CITES, mae'n cael ei drin fel un sydd wedi ei gofrestru'n unol â'r Rheoliadau hyn at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf.

(2) Nid yw rheoliad 3 na pharagraffau (1)(a)(iii), (c) ac (ch) o reoliad 4 yn gymwys mewn cysylltiad ag adar

(i) dies;

(ii) escapes or is released into the wild;

(iii) is disposed of by way of sale or otherwise;

(iv) is exported from the United Kingdom;

(b) when the ring or marking referred to in regulation 6 is removed or the identifying information on it or stored within it becomes unreadable;

(c) when the registered bird is kept by a person other than its registered keeper, unless it is intended at the time when the bird begins to be so kept that it will be returned to its registered keeper within the specified period and the bird is so returned;

(d) when the registered bird is kept by its registered keeper but ceases to be kept at its registered address, unless—

(i) it is intended at the time when the bird ceases to be so kept that it will be returned to its registered address within 3 weeks and the bird is so returned, or

(ii) the Welsh Ministers are notified in writing in accordance with paragraph (2) of the new address at which the bird will be kept.

(2) The notification referred to in paragraph (1)(d)(ii) must—

(i) be made before the bird ceases to be kept at the registered address; and

(ii) contain the date from which the bird will be kept at the new address.

(3) In regulation 4(1)(c) "the specified period" ("*y cyfnod penodedig*") means—

(i) in circumstances where the bird will not be kept continuously at its registered address, a period of 3 weeks; or

(ii) in circumstances where the bird will be kept continuously at its registered address, a period of 6 weeks.

**Birds registered on CITES register**

**5**.—(1) Where a bird of a species listed in the Schedule is registered on the CITES register, it is treated as being registered in accordance with these Regulations for the purposes of section 7(1) of the Act.

(2) Regulation 3 and paragraphs (1)(a)(iii), (c) and (d) of regulation 4 do not apply in relation to birds

sydd wedi eu cofrestru yn rhinwedd paragraff (1).

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "CITES" ("*CITES*" ) yw'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl;

ystyr "cofrestr CITES" ("*CITES register"*) yw unrhyw gofrestr o adar y mae tystysgrif CITES wedi ei dyroddi mewn cysylltiad â hi;

ystyr "tystysgrif CITES" ("*CITES certificate*") yw tystysgrif y cyfeirir ati yn Erthygl 10 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 338/97 ynghylch gwarchod rhywogaethau ffawna a fflora gwyllt drwy reoleiddio'r fasnach ynddynt(**1**) ac a ddyroddwyd gan yr awdurdod rheoli ar gyfer y Deyrnas Unedig(**2**).

**Modrwyo a marcio**

**6**.—(1) Rhaid i bob aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo gael ei fodrwyo â modrwy a geir oddi wrth Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn cysylltiad ag adar sydd wedi eu marcio'n unol â'r gofynion ynghylch marcio sbesimenau yn Erthygl 66 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 865/2006 sy'n gosod rheolau manwl ynghylch gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 338/97 ar warchod rhywogaethau ffawna a fflora gwyllt drwy reoleiddio'r fasnach ynddynt(**3**).

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n modrwyo aderyn o dan baragraff (1) gwblhau datganiad modrwyo ar ffurflen a geir oddi wrth Weinidogion Cymru a dychwelyd y ffurflen honno i Weinidogion Cymru.

**7. Dirymu**

Mae'r offerynnau canlynol wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003(**4**);

(**1**) O.J. L 61, 3.3.1997, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 709/2010 (O.J. L 212, 12.8.2010, t.1).

(**2**) Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r awdurdod rheoli ar gyfer y Deyrnas Unedig ar ôl cael ei ddynodi o dan Erthygl IX(1) o'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl i gyflawni'r swyddogaeth honno ac i roi trwyddedau neu dystysgrifau ar ran y Deyrnas Unedig yn unol â'r confensiwn hwnnw.

(**3**) O.J. L 166, 19.6.2006, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 100/2008 (O.J. L 31, 5.2.2008, t.3).

(**4**) O.S. 2003/3235 (Cy. 315).

registered by virtue of paragraph (1).

(3) In this regulation—

"CITES" ("*CITES*") means the Convention on International Trade in Endangered Species of Wild Fauna and Flora;

"CITES certificate" ("*tystysgrif CITES*") means a certificate referred to in Article 10 of Council Regulation (EC) No. 338/97 on the protection of species of wild fauna and flora by regulating trade therein(**1**) issued by the management authority for the United Kingdom(**2**);

"CITES register" ("*cofrestr CITES*") means any register of birds in respect of which a CITES certificate has been issued.

**Ringing and marking**

**6**.—(1) Every bird to which these Regulations apply must be ringed with a ring obtained from the Welsh Ministers.

(2) Paragraph (1) does not apply in respect of birds marked in accordance with the specimen marking requirements of Article 66 of Commission Regulation (EC) No. 865/2006 laying down detailed rules concerning the implementation of Council Regulation (EC) No. 338/97 on the protection of species of wild fauna and flora by regulating trade therein(**3**).

(3) Any person who rings a bird under paragraph (1) must complete a declaration of ringing on a form obtained from the Welsh Ministers and return that form to the Welsh Ministers.

**Revocations**

**7**. The following instruments are revoked—

(a) The Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) Regulations 2003(**4**);

(**1**) O.J. L 61, 3.3.1997, p.1. This Regulation was last amended by Commission Regulation (EU) No. 709/2010 (O.J. L 212, 12.8.2010, p.1).

(**2**) The Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs is the management authority for the United Kingdom having been designated under Article IX(1) of the Convention on International Trade in Endangered Species of Wild Fauna and Flora to carry out that function and to grant permits or certificates on behalf of the United Kingdom pursuant to that convention.

(**3**) O.J. L 166, 19.6.2006, p.1. This Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 100/2008 (O.J. L 31, 5.2.2008, p.3).

(**4**) S.I. 2003/3235 (W. 315)

(b) Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2009(**1**).

(b) The Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) (Amendment) Regulations 2009(**1**).

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

Minister for the Environment and Sustainable Development, one of the Welsh Ministers

5 Gorffennaf 2011

5 July 2011

(**1**) O.S. 2009/1733 (Cy. 161).

(**1**) S.I. 2009/1733 (W. 161).

## YR ATODLEN

Rheoliad 5

### ADAR Y MAE RHEOLIAD 5 YN GYMWYS IDDYNT

| Enw cyffredin | Enw gwyddonol |
|---|---|
| Cudyll bach | Falco columbarius |
| Hebog tramor | Falco peregrinus |

## SCHEDULE

Regulation 5

### BIRDS TO WHICH REGULATION 5 APPLIES

| Common name | Scientific name |
|---|---|
| Merlin | Falco columbarius |
| Falcon, Peregrine | Falco peregrinus |

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£5.75

W987/07/11 ON